

Cyngor Cymuned Llanllyfni

Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor, Nos Fawrth y 11ed o Dachwedd 2014.

- 1. Presennol:** OP Huws (Cadair), Gwyndaf Roberts – Llanllyfni; Iwan Lloyd Williams, Barry Bracegirdle – Penygroes; Eurig Evans – Nebo; Dafydd Glyn Owen, Harry Wyn Owen - Talysarn / **Ymddiheuriadau:** Dyfed Edwards, Ifan Glyn Jones, Menna Willias – Penygroes; Sharon Wynne Jones – Talysarn; T Les Jones – Nantlle.

Cyn cychwyn ar yr agenda, cafwyd cyfnod i gofio am Elwyn Jones-Griffith. Bydd yn golled mawr i'r teulu, Dyffryn Nantlle, ei etholaeth ac I ni fel Cyngor Cymuned. Bu'n cynrychioli'r Cyngor ar nifer o bwyllgorau I nifer fawr o fudiadau ac yn aelod brwd a gweithgar iawn o'r Cyngor Cymuned. Bydd y Cyngorwyr yn cofio ei bresenoldeb ac hefyd yn cofio ei gyfeillgarwch. Ategwyd hyn gan y Cyngorwyr, cafwyd gair gan Harry Wyn a Dafydd Glyn Owen. Cafwyd munud o dawelwch I gofio am Elwyn.

- 2. Gweithdrefnau.** Wedi edrych drwy weithdrefnau Cyngorau Cymuned parthed seddi gwag, bydd yn rhaid hysbysu Cyngor Gwynedd o'r sedd wag ym Mhenygroes yn syth. Gofynwyd I'r Clerc gysylltu.
- 3. Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Gwyndaf yn datgan diddordeb – eitem 12 – goleuadau Nadolig.
- 4. Cywirdeb cofnodion cyfarfod Mis Hydref.** Un cywirdeb angen ei wneud o dan faterion pentrefi – lloches bws Nasareth (nid Nantlle) – Eurig yn cynnig cywirdeb y cofnodion, a Barry yn eilio.
- 5. Materion yn codi o'r cyn gofnodion.** Dim yn codi.
- 6. Adrodd yn ol o unrhyw gyfarfod is-bwyllgor.** Cynhaliwyd is-bwyllgor mynwentydd/llwybrau ac is-bwyllgor personol/cyllid yn ystod y mis. OP Huws yn adrodd yn ol, a rhannwyd copiau o'r cofnodion I'r Cyngorwyr. Man offer wedi eu storio yn y cwt yn MacPelah – y clo wedi ei ddwyn, a'r offer wedi mynd. Gofyn I'r gweithiwr am restr o'r hyn oedd yno. Argymhellwyd I'r Cyngor llawn fod yr offer mawr (megis y tractor torri gwair, trelar ac yn y blaen) yn cael eu storio gan y Cyngor, a cytunodd OP I'w storio gartref. Argymhellwyd I'r Cyngor fod y gwaith torri llwybrau a mynwentydd yn cael ei roi allan I dendr am gyfnod o dair mlynedd, gan gychwyn ar y 1af o Ebrill 2015, a gorffen ar y 31ain o Fawrth 2018. Pawb yn cytuno, ac felly penderfynwyd mynd drwy'r ddogfen dendr drafft gymal wrth gymal I'w wirio. Penderfynwyd rhoi hysbyseb yn Lleu a'r Herald yn syth bin. Angen ychwanegu cymal yn y contract am unrhyw waith ychwanegol achlysurol. Gofynwyd I'r Clerc wneud cais I Gyngor Gwynedd am gopi o fapiau llwybrau'r Cyngor Cymuned yn manylu categori 1 a chategori 2 yn unig, ac hefyd gofyn os oes posibil eu derbyn mewn ffurf electroneg. Cymrwyd nodiadau ar y newidiadau I'r ddogfen dendro, y Clerc I'w newid, OP I'w gwirio, ag wedyn lawr-lwytho ar wefan y Cyngor.
- 7. Gweithiwr y Cyngor – Ffarwelio** Croesawyd Twm I'r cyfarfod. Cafwyd gair o ddiolch gan OP Huws am gyfraniad Twm dros y blynyddoedd. Roedd Twm wedi gweithio I'r Cyngor Cymuned am gyfnod o 43 mlynedd, a'I dad wedi gweithio I'r Cyngor am 30 blwyddyn cyn hynny. Cyflwynwyd llun o Llyn Nantlle I Twm gan y Cyngorwyr. Dywedodd Twm fod y strap cerrig beddi dal ganddo, a bydd rhaid trefnu I'w nol. Cafwyd rhestr o'r hyn a oedd wedi eu gadael yn y cwt, a chytunwyd fod yr eitemau yma yn ddiwerth.
- 8. Cynllunio.** Estyniadau cefn unllawr ynghyd a newid defnydd rhannau o'r adeilad i greu annedd ar wahan – 8 Ffordd yr Orsaf, Penygroes – disgrifiad y cais wedi newid. Derbyn ; Gernant, 15 Victoria Terrace, Nantlle – cais ol-weithredol i gadw addasiadau i'r simnai. Derbyn.

9. Gohebiaeth.

Cyngor Gwynedd

*Ymatebion. Darllenwyd.

*Ad-daliad torri llwybrau – gweithdrefnau. Cysylltu efo'r contractiwr I ofyn am yr anfoneb.

*Cyfrifiad – nifer sy'n cysgu ar y stryd yng Ngwynedd. Dim gwybodaeth I'w ychwanegu.

Arall

*Hysbyseb swydd Comisiynydd Plant Cymru. Er gwybodaeth.

*Arolwg Canfod Moch Daear Marw. Er gwybodaeth.

*JB Pest Control – cyflwyno manylion gwasanaeth a gynigir. Cadw ar ffeil.

*Clerks and Councils Direct. Ary bwrdd.

10. **Gwefan.** Gyrru linc y wefan I'r Cynghorwyr er gwybodaeth.

11. **Goleuadau Nadolig.** Tri pris wedi ei dderbyn erbyn hyn am y gwaith o osod a chynnal goleuadau Nadolig Penygroes. Y Cyngor yn cymeradwyo'r penderfyniad i'r gwaith gael ei roi i'r cyn-gontractiwr, gan mai hwn oedd y pris rhataf. Ffair Nadolig Penygroes yn cael ei chynnal Tachwedd 29. Iwan ac OP am drefnu coed Nadolig.

12. **Materion Pentrefi.** Llanllyfni bin wrth y safle bws yn llawn – gofyn iddo gael ei wagio. Llochesi bws – gofyn I Gyngor Gwynedd am eu glanhau; Gwliau Lon Ddwr eisiau eu glanhau. Penygroes Coed wedi eu plannu yn torri cebl ffon ger 82 Trem yr Wyddfa. Y Clerc I gysylltu efo Tai Cymunedol. Cyrbiau a phalmentydd Trem yr Wyddfa wedi torri. Gofyn i Gyngor Gwynedd I chwynnu Stryd yr Wyddfa. Talysarn Derbyniwyd galwad ffon gan Reithor yr Eglwys – yr Eglwys yn cau. Pryder am beth I'w wneud efo'r gofeb sydd yno. Penderfynwyd gofyn I'r Rheng Brydeinig os oes modd lleoli'r gofeb efo'r gof-golofn ym Mhenygroes.

13. **Llwybrau a Mynwentydd.** Cafwyd y goriad mynwentydd oedd gan Elwyn yn ol gan ei wraig. Un set o oriadau gan y Cadeirydd, un arall gan Harry Wyn, a'r llall yn garej Poveys. MacPelah angen sicrhau bod digon o le yn cael ei gadw tu ol I fedd Elwyn Jones-Griffith ar gyfer troi (yn y cynllun mynwent newydd) wrth ddynodi plotiau claddu newydd. St Rhedyw Coed celyn wedi gafael ac yn tyfu yn y beddi a rhwng beddi. Awgrymwyd gadael y chwyn ar hyn o bryd a'u chwistrellu yn y gwanwyn, ond trefnu bod rhai o'r coed celyn yn cael eu llifio. OP a Gwyndaf am gyfarfod yn y fynwent a marcio'r coed sydd angen eu llifio. Trefnu pris am y gwaith. Binau mynwentydd – trefnu arwydd I'r bin yn Gorphwysfa – blodau yn unig. Holi Cyngor Gwynedd faint fyddai'r gost am 'wheelie-bin' mawr. Harry Wyn yn datgan pryder bod tyllau rhwng beddi yn MacPelah. Gofynwyd I'r Clerc baratoi arwydd I'w roi yn y fynwent yn gofyn wrth bobl gymryd gofal wrth gerdded oddi ar y llwybr gan bod y tir y anwastad. Llwybr o Bro Silyn I fyny I Tynyweirglodd – giat wedi ei chloi a charreg ar draws yn y top (dros y ffordd I 54 Bro Silyn). Llwybr Pont Crychddwr yn Nebo – tipio slei bach – coed ar y llwybr.

14. **Materion yn ymweud a'r heddlu.** Alex Higgins I ffwrdd o'r gwaith ar hyn o bryd, sicrhau bod ebyst yn mynd I Julie Holland.

15. **Materion ariannol.**

***Taenlen i'w chymeradwyo.**

***Biliau i'w talu** – A Johnson ffon/rhyngwrwyd £25; A Johnson- derbynebau (gliniadur). Derbyd.

***Ceisiadau am Arian – Bobath.** Trafod fis Chwefror.